***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 No. 1397

## Rheoliadau Cynhyrchu Colagen Buchol y Bwriedir i Bobl ei Fwyta yn y Deyrnas Unedig (Cymru) 2005

**Gorfodi**

**9.**—(1) Gweithredir a gorfodir rheoliad 6 gan yr awdurdod bwyd o fewn ei ardal.

(2) Wrth archwilio unrhyw golagen y bwriedir i bobl ei fwyta, caiff swyddog awdurdodedig o awdurdod bwyd y lleolwyd y fangre lle cafodd ei archwilio o fewn ei ardal, ardystio nad yw'r colagen o dan sylw wedi cael ei gynhyrchu, ei lapio, pacio, storio neu gludo yn unol â rheoliad 6.

(3) Os ardystir unrhyw golagen y bwriedir i bobl ei fwyta fel y crybwyllir ym mharagraff (2), caiff ei drin at ddibenion adran 9([1]) o'r Ddeddf fel methiant i gydymffurfio â gofynion diogelwch bwyd.

([1]) Diwygiwyd adran 9 gan O.S. 2004/3279.